

RHAGLEN

DATGAN BUDDIANNAU

Atgoffir yr Aelodau'n barchus bod angen iddynt ddatgan buddiannau personol a/neu ragfarnus mewn unrhyw fusnes i'w ystyried yn y cyfarfod hwn.

1. YMDDIHEURIADAU

Derbyn unrhyw ymddiheuriadau a gyflwynwyd ar ran yr Aelodau am absenoldeb.

2. AWDURDODI TALIADAU/YCHWANEGIADAU I'R RHESTR CYFLENWYR CYMERADWY

Derbyn a phenderfynu ar adroddiad Clerc y Dref (copi'n amgaeedig).

3. GOHEBIAETH – CYMGOR SIR DDINBYCH – SYMIAU NEILLTUEDIG

Derbyn gohebiaeth (copi'n amgaeedig) gan Gyngor Sir Ddinbych yn hysbysu o argaeledd arian symiau neilltuedig a'r dyddiad cau ar gyfer gwneud ceisiadau, sef hanner dydd ar ddydd Gwener 17eg Tachwedd 2017.

4. DYDDIAU PARCIO AM DDIM

Penderfynu ar y dyddiadau ar gyfer defnyddio'r pum diwrnod parcio am ddim a ddarperir gan Gyngor Sir Ddinbych ar gyfer 2017.

5. CYNGOR SIR DDINBYCH – DIWEDDARIAD AR YMGYNGHORIAD

Ymhellach i Gofnod Rhif 49 y cyfarfod a gynhaliwyd ar 6ed Medi 2017, derbyn ymateb interim (copi'n amgaeedig) Cyngor Sir Ddinbych mewn perthynas â sylwadau a wnaed mewn perthynas â gweithredu / amrywio gorchmynion traffig ym Maes Parcio Theatr y Pafiliwn a Maes Parcio Rhodfa'r Dwyrain.

6. LANDLORDIAID COFRESTREDIG

Ymhellach i Gofnod Rhif 34 y cyfarfod a gynhaliwyd ar 5ed Gorffennaf 2017, derbyn adroddiad llafar Clerc y Dref mewn perthynas â rhestr o landlordiaid yn ardal y Rhyl.

7. CYFARFOD GYDA HEDDLU'R RHYL / GWAHODDIAD GAN Y PRIF GWNSTABL

Ymhellach i Gofnod Rhif 45 cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar 20fed Medi 2017

- (i) Hysbysu o gyfarfod i'w gynnal gyda swyddogion lleol yng Ngorsaf Heddlu'r Rhyl ar ddydd Mercher 25ain Hydref 2017 a phenderfynu ar yr eitemau i'w trafod.
- (ii) Penderfynu ar wahoddiad a roddwyd gan y Prif Gwnstabl i Aelodau ymweld â Phencadlys ar y cyd yr Heddlu a'r Gwasanaeth Tân yn Llanelwy (copi'n amgaeedig)

8. EITEMAU GWYBODAETH GAN YR AELODAU

Derbyn gwybodaeth gan yr Aelodau ar faterion brys sy'n codi, manylion y rhain sydd wedi eu cytuno gyda'r Cadeirydd cyn i'r cyfarfod ddechrau.

9. GWAHARDD Y WASG A'R CYHOEDD

Argymhellir, dan Adran 1(2) Deddf Cyrff Cyhoeddus (Derbyn i Gyfarfodydd) 1960, y dylid gwahardd y Wasg a'r Cyhoedd o'r cyfarfod wrth ystyried yr eitemau busnes canlynol, oherwydd cyfrinachedd.

10. CYNNIG I ADLEOLI'R CYNGOR TREF

Derbyn adroddiad cynnydd cyfrinachol gan yr Is-bwyllgor Asesu Risg (copi'n amgaeedig) mewn perthynas â'r cynnig i adleoli'r Cyngor Tref.

11. EITEM SEFYDLOG: GORCHMYNION CAU HEDDLU GOGLEDD CYMRU

Mewn perthynas â Chofnod Rhif 79 cyfarfod y Pwyllgor Cyllid a Dibenion Cyffredinol a gynhaliwyd ar 3ydd Chwefror 2016, ystyried unrhyw geisiadau gan Heddlu Gogledd Cymru (manylion i'w dosbarthu yn y cyfarfod os oes angen).

12. TERFYNU'R CYFARFOD

Y Cadeirydd i ddirwyn y cyfarfod i ben.